Urdd Gobaith Cymru
Disgrifiad Swydd

Teitl y swydd:	Prentis Gweithgareddau Gwersyll Llangrannog
Yn atebol i:	Rheolwr Gofal Cwsmer a thrwyddo ef i'r Cyfarwyddwr.
Cyflog:	Bydd pecyn ariannol (cyflog yn gyfartal a chyflog Prentis Cenedlaethol) yn cael ei gynnig bydd yn cynnwys lwfans byw yn ogystal â threfniadau hyfforddiant a llety.
Hyd y cytundeb:	Bydd y cyfnod hyfforddiant yn para am flwyddyn gan gychwyn Medi 2019 tan 31ain Awst 2020.
Oriau gwaith:	• 35 awr yr wythnos • Golyga dyletswyddau'r swydd hon y bydd rhaid gweithio bob yn ail benwythnos ac ar Wyliau'r Banc. Bydd hawl i 2 ddiwrnod i ffwrdd yn ystod yr wythnos ar ôl gweithio penwythnos a 2 ddiwrnod "in lieu" am weithio Gŵyl y Banc. • Oriau gwaith arferol: 9a.m.-5p.m. • Bydd un shifft 2p.m.-10p.m. pob tua 6 wythnos. Bydd rhaid gweithio tu allan i'r oriau hyn o bryd i'w gilydd
Lleoliad:	Gwersyll yr Urdd, Llangrannog
Gwyliau blynyddol:	Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod wyliau cyhoeddus - y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad ar Reolwr Cwsmer
Cyfnod prawf:	Bydd cyfnod prawf o 3 mis.
Gwiriad DBS:	Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (DBS)
Archwiliad meddygol:	Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir mynd o dan archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol.

Dyletswyddau, Gofynion a Hyfforddiant

1. Disgwylir i ymgeiswyr llwyddiannus gymryd rhan yn yr holl hyfforddiant a gynigir. Anelir at dystysgrifau cenedlaethol:

- Tystysgrif NVQ Lefel 2 mewn Arwain Gweithgareddau (QCF)
- Cwrs Arweinwyr Chwaraeon Lefel 2
- Cwrs Diogelwch Plant
- Cwrs Cymorth Cyntaf
- Cwrs Achub Bywyd Pwll Nofio
- Cwrs Arweinydd Saethyddiaeth
- Cwrs Hyfforddi Sgïo / Byrddio Eira
- Cwrs Arweinydd Beiciau Modur
- Cyrsiau Iechyd a Diogelwch

2. Er mwyn ennill y tystysgrifau disgwylir i'r ymgeiswyr ymarfer y tu allan i oriau arferol y cynllun. Yn ogystal â'r hyfforddiant uchod rhoddir hyfforddiant mewnol ar holl weithgareddau amrywiol y gwersyll gan gynnwys y wal ddringo, cwrs rhaffau uchel, adeiladu tîm, datrys problemau cyfeiriannu, trampolîn, merlota, ceirt modur, gwibgartio a gweithgareddau nos.

3. Disgwylir i'r prentisiaid ymgymryd â'r rota staff y Gwersyll sy'n golygu bod ar ddyletswydd ar benwythnosau ac oriau hwyr ac anghymdeithasol. Fe roddir amser ychwanegol i ffwrdd am hyn.

4. Mae llawer o ddyletswyddau cyffredinol y Gwersyll yn disgyn i ran aelodau'r Adran Weithgareddau. Bydd y rhain yn cynnwys glanhau a chynnal a chadw gwahanol ardaloedd ac offer o fewn y Gwersyll, llenwi peiriannau bwyd a diod, a rhoi cymorth i adrannau eraill y Gwersyll yn ôl y galw.

5. Oherwydd natur y Gwersyll, fe fydd rhaid i'r ymgeiswyr ymateb i alwadau a gofynion amrywiol o dro i dro.

6. Disgwylir i'r ymgeiswyr llwyddiannus fod dros 16 mlwydd oed, yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg, gyda diddordeb mewn plant a phobl ifanc, ac yn meddu ar bersonoliaeth radlon a brwdfrydig.

Os am sgwrs anffurfiol, cysylltwch ag Iestyn Evans, Rheolwr Gofal Cwsmer, Gwersyll Llangrannog ar 01239 652140